# Lleihau Baich Gwaith

## Canllaw i Athrawon a Phenaethiaid

Nod y canllaw hwn yw helpu a chynorthwyo pob athro i ganolbwyntio ar gyflawni'r effaith fwyaf i ddisgyblion, a lleihau baich gwaith athrawon ar yr un pryd.

| Beth **ddylai** athrawon ei wneud? | Beth **na ddylai** athrawon ei wneud? | Beth yw barn **Estyn**? |
|---|---|---|

## Cynllunio ac addysgu

### Dylech...

- roi'r statws cymesur y maent yn eu haeddu i gynlluniau gwersi.
- sicrhau bod cynlluniau gwersi yn adlewyrchu cynnwys unrhyw gynlluniau gwaith perthnasol.
- cynllunio ar y cyd ac yn effeithlon, gan ystyried anghenion eich disgyblion.
- bod ag adnoddau a chynlluniau gwaith o ansawdd dda ac sy'n hawdd cael gafael ynddynt.

### Peidiwch...

- gwneud cynllunio dyddiol neu wythnosol gorfanwl yn ddisgwyliad arferol ar draul cynlluniau gwaith wedi eu paratoi ar y cyd.
- creu cynlluniau manwl sy'n troi'n ymarfer 'ticio blychau', ac sy'n dwyn amser oddi wrth gynllunio effeithiol.
- cynllunio i fodloni sefydliadau allanol.

### Estyn

- Nid yw **Estyn** yn nodi sut y dylid amlinellu cynlluniau, faint o amser y dylent gymryd na'r manylion y dylid eu cynnwys.
- Nid yw **Estyn** yn mynnu bod ysgolion yn darparu cynlluniau gwersi unigol na blaenorol ar gyfer arolygwyr nac yn ffafrio ffyrdd penodol o gynllunio nac addysgu.
- Mae **Estyn** yn barnu gwersi ar sail ansawdd y dysgu yn bennaf. Mae'r ffocws ar ba mor dda y mae dysgwyr yn ymateb i'r addysgu.
- Ni fydd arolygwyr **Estyn** yn barnu gwersi unigol gan ddefnyddio'r disgrifyddion barn ond byddant yn cynnal deialog broffesiynol gydag athrawon yn dilyn unrhyw arsylwadau gwersi uniongyrchol.

## Adborth i ddisgyblion

### Dylech...

- gofio y dylai pob adborth (gan gynnwys marcio) fod yn amserol, yn ystyrlon, yn hylaw ac yn ysgogol ar gyfer disgyblion.
- ystyried ansawdd yr adborth i ddisgyblion yn hytrach na'i faint.
- cyfrannu at y dasg o adolygu polisi asesu'r ysgol yn achlysurol i sicrhau cysondeb a'i fod yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

### Peidiwch...

- rhoi gwerth anghymesur i farcio mewn perthynas â mathau eraill o adborth.
- rhoi gormod o adborth ysgrifenedig i ddisgyblion. Gall hyn achosi i ddisgyblion beidio â chael eu cymell i dderbyn heriau a chymryd cyfrifoldeb am wella eu gwaith eu hunain.
- treulio amser ar adborth nad yw'n cael effaith gymesur ar gynnydd disgyblion.

### Estyn

- Nid yw **Estyn** yn ffafrio unrhyw ddull penodol o farcio neu roi adborth. Mae Estyn yn barnu effaith unrhyw farcio neu adborth ar ba mor dda y mae disgyblion yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.
- Nid yw **Estyn** yn disgwyl gweld unrhyw gofnod ysgrifenedig o adborth llafar i ddisgyblion, ond bydd yn ystyried sut mae athrawon a disgyblion yn defnyddio adborth ysgrifenedig a llafar i hyrwyddo dysgu.

## Atebolrwydd, dadansoddi data a chynllunio strategol

### Dylech...

- fod yn glir ynghylch diben casglu a dadansoddi unrhyw ddata. Ystyriwch pam fod ei angen, a sut y bydd yn helpu i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.
- bod yn ymwybodol o'ch baich gwaith eich hun. Ystyriwch pa mor hir y bydd yn ei gymryd i chi gasglu, dadansoddi a defnyddio data am berfformiad disgyblion, a ph'un a allech dreulio'r amser hwnnw yn fwy effeithlon.
- manteisio ar gyfleoedd i gyfrannu at weithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol a chynllunio ar gyfer gwella.

### Peidiwch...

- casglu data nad yw'n bwrpasol. Dylai fod gennych synnwyr clir a phriodol o'i ddilysrwydd a'i ddiben.
- dyblygu data ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd – casglwch y data unwaith a'i ddefnyddio sawl gwaith.

### Estyn

- Bydd arolygwyr **Estyn** yn edrych ar dystiolaeth i ddangos bod arweinwyr yn monitro ac yn arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol.
- Nid yw **Estyn** yn mynnu bod ysgolion yn llunio dadansoddiadau data ychwanegol na thystiolaeth ychwanegol o fonitro ar gyfer arolygu y tu hwnt i'r hyn y byddent fel arfer yn ei wneud at eu dibenion eu hunain.
- Bydd arolygwyr **Estyn** yn defnyddio adroddiad hunanarfarnu cyfredol yr ysgol i ystyried i ba raddau y mae'n adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

undeb addysg cenedlaethol cymru

CYMRU NAHT
FOR LEADERS, FOR LEARNERS
ARWEINYDDION, DYSGWYR

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

NASUWT CYMRU
The Teachers' Union
Undeb yr Athrawon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

EAS
Education Achievement Service for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Voice
The union for education professionals
CYMRU

UNISON
Cymru Wales

ASCL Cymru